

# Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyllido yr UE 2014-2020

Ionawr 2014

Colegau Cymru  
Uned 7 Cae Gwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB  
Ff: 029 2052 2500  
E: [helo@colegaucymru.ac.uk](mailto:helo@colegaucymru.ac.uk)  
G: [www.colegaucymru.ac.uk](http://www.colegaucymru.ac.uk)

Colleges Wales  
Unit 7 Cae Gwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB  
T: 029 2052 2500  
E: [hello@collegeswales.ac.uk](mailto:hello@collegeswales.ac.uk)  
W: [www.collegeswales.ac.uk](http://www.collegeswales.ac.uk)

## Cyflwyniad

---

1. Mae ColegauCymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020. Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 15<sup>1</sup> coleg addysg bellach (AB) a sefydliad AB yng Nghymru.<sup>2</sup> Yn 2011/12, roedd 214,850 o fyfyrwyr unigol yn mynychu'r colegau ac roedd 229,615 o ymrestrïadau.<sup>3</sup>
2. Bu'r colegau wrthi'n gwneud y gorau o'r manteision sydd i Gymru yn rhaglenni cyllido'r UE ers dau ddegawd. Bu'r colegau yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni a luniwyd i wella sgiliau'r gweithlu yng Nghymru a lleihau'r lefel o allgáu cymdeithasol. Mae hyn yn rhan o fusnes craidd colegau wrth hybu adfywiad economaidd Cymru drwy sicrhau gwell sylfaen sgiliau a thrwy drosglwyddo arloesedd a thechnoleg i fyd busnes a diwydiant.
3. Mae lleoliad Cymru ar ymyl gorllewinol yr UE wedi ei galluogi i gymryd rhan yn rhai o raglenni INTERREG yn y cyfnodau blaenorol. Mae'r cyfle, yng nghyfnod 2014-2020, i fod yn rhan o INTERREG V, Rhaglen Drawsffiniol Cymru-Iwerddon, Rhaglen Ardal yr Iwerydd a Rhaglen Drawswladol Gogledd-orllewin Ewrop, yn cynnig cyfle pellach i Gymru elwa o'r rhaglenni pwysig hyn.
4. Cymerodd ColegauCymru ei hun rôl arweiniol wrth helpu'r colegau i ymwneud â'r rhaglenni hyn, yn benodol rhaglenni dysgu gydol oes yr UE fel Leonardo (ac Erasmus+ o 2014 ymlaen). Ein huchelgais yw y bydd y colegau yn ymwneud llawer mwy â'r rhaglenni hyn yn nghyfnod rhaglennu 2014-2020. Rydym wedi dechrau gweithio gyda cholegau ac asiantaethau eraill ledled y DU i gynllunio prosiectau posibl ar y cyd o dan INTERREG.
5. At y diben hwn, bu'r colegau yng Nghymru a CholegauCymru yn chwarae rôl amlwg yn seminar pwysig y gwledydd Celtaidd ar gyllid yr UE, a oedd â chynrychiolwyr o Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a gynhaliwyd yn Dundalk, Iwerddon ar 29 a 30 Ionawr 2014. Yn y seminar, edrychwyd ar opsiynau i gydweithio ar brosiectau trawsffiniol yn ymwneud â rhaglenni INTERREG. Bydd gwaith yn dilyn ymlaen o'r seminar hwnnw yn bwydo i mewn i gynlluniau'r colegau eu hunain i ymwneud â rhaglenni cyllido pwysig yr UE yng nghyfnod rhaglenni 2014-2020.
6. Byddai ColegauCymru yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth bellach i'r pwyllgor wyneb yn wyneb. Rydym yn hapus i'r ymateb hwn fod yn wybodaeth gyhoeddus.

---

<sup>1</sup> Mae'r 15 yn cynnwys 10 corfforaeth AB gan gynnwys Coleg Catholig Dewi Sant; y ddau sefydliad AB – WEA Cymru a Choleg Cymunedol YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion sydd yn rhan o grwpiau prifysgol.

<sup>2</sup> Yn y papur hwn, caiff y termau 'coleg AB' a 'choleg' eu defnyddio i gwmpasu colegau AB a sefydliadau AB.

<sup>3</sup> *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2011/12 SDR 48/2013*, Llywodraeth Cymru (Mawrth 2013).

## Ymatebion i gwestiynau'r pwyllgor

### a). Ymgysylltiad y colegau ym mhrosiectau Dysgu Gydol Oes yr UE a rhaglen INTERREG

7. Mae'r colegau wedi ymwneud yn helaeth â phrosiectau Dysgu Gydol Oes yr UE a rhaglen INTERREG. Ers 2011, cafodd cyfanswm o **41 prosiect dysgu gydol oes yr UE** (gan gynnwys y rhai a drefnwyd gan GolegauCymru) eu hariannu mewn 11 o golegau yng Nghymru, **gan ddenu cyfanswm o £2.3m o incwm drwy'r prosiectau.**
8. Er mwyn cynnig cymorth strategol i golegau yng Nghymru, bu i GolegauCymru gyflogi Cydlynnydd Rhyngwladol ym mis Tachwedd 2010 i annog dysgwyr a staff Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol i gymryd rhan mewn prosiectau a ariennir gan Ewrop. Y canolbwynt pennaf oedd/yw cyflwyno cais **Leonardo da Vinci** canolog ar ran colegau AB yng Nghymru i gynnig symudedd i brentisiaid a dysgwyr galwedigaethol amser llawn, gyda'r cyfranogwyr yn derbyn lleoliadau gwaith 2-3 wythnos yn Ewrop.
9. Mae ColegauCymru yn cyflwyno cais canolog yn flynyddol am gyllid ar ran y colegau AB yng Nghymru ac yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid yn Ewrop i sicrhau bod y cais yn llwyddiannus. Caiff rhai o'r partneriaid yn Ewrop eu dewis o blith rhwydwaith ColegauCymru o gysylltiadau yn Ewrop ac mae eraill yn bartneriaid y bu'r colegau yn cydweithio â hwy yn flaenorol ond gan wneud cais am gyllid drwy gais ColegauCymru.
10. Ers mis Tachwedd 2010, mae ColegauCymru wedi sefydlu cysylltiadau hirdymor â'r adrannau symudedd yn llywodraeth ranbarthol Catalonia ac â Chyfarwyddwr Rhyngwladol Tknika yng Ngwlad y Basg yn Sbaen (a ariannir gan Lywodraeth Gwlad y Basg). Mae rhai o'r colegau AB yng Nghymru wedi datblygu cydberthnasau cryf â cholegau galwedigaethol yn yr ardaloedd hyn drwy brosiect symudedd ColegauCymru – Coleg y Cymoedd (IES Don Bosco, Gwlad y Basg ac EHTB, Barcelona); Grŵp NPTC (IES La Garrotxa, Catalonia).

Bu colegau yn rhan o **Raglen Cymru-lwerddon 2007-2013** ac maent yn gweithio'n galed i wneud y gorau o raglenni 2014-2020. Yn rhaglen Cymru-lwerddon, mae'n werth tynnu sylw at dri phrosiect:

- ❶ Prosiect **mCymuned** dan arweiniad Coleg Sir Benfro (£1.8m) sy'n canolbwyntio ar helpu grwpiau anodd eu cyrraedd neu rai sydd mewn mwyaf o berygl o beidio ag ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, i ddysgu drwy dechnoleg symudol. Bu canlyniadau'r prosiect yn nodedig o gadarnhaol.

- Mae prosiect **Gweledigaeth**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai (£1m) ac ar y cyd â Sefydliad Technoleg Tallaght yn Nulyn, yn gweithio i gynnig cymorth uniongyrchol ac ymarferol i fusnesau wrth symud cynnyrch neu wasanaeth ymlaen o'r syniad dylunio cychwynol i'r farchnad. Caiff busnesau ac entrepreneuriaid cymwys lleol werth hyd at £30,000 o gymorth arbenigol drwy'r prosiect.
- Partneriaeth rhwng Coleg Sir Benfro a phartneriaid eraill yw prosiect **Rising Tide** (£2.1m), sy'n cynnal rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol er mwyn cynnig llwybrau datblygu i aelodau sydd ar ymylon y gymuned. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal rhaglenni adfywio cymunedol i ddatblygu digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau lleol gyda rhanddeiliaid lleol er mwyn datblygu twristiaeth forol a hybu mentergarwch yn lleol.

## b). Lefel y cymorth sydd ar gael i hwyluso cyfranogiad llwyddiannus

---

11. Mae Ecorys, yr asiantaeth genedlaethol ar gyfer cyllid Leonardo hyd at 2013, yn ffynhonnell ddibynadwy o gymorth ar gyfer ceisiadau symudedd. O dan Raglen Dysgu Gydol Oes 2007–2013, Ecorys oedd yn rheoli Grŵp Cynghori Cymru a oedd yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Adroddwyd a thrafodwyd ystadegau yn ymwneud â chyfranogiad Cymru ym mhob elfen o'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes yn y grŵp. Roedd y grŵp yn cynnwys sefydliadau a oedd yn derbyn cyllid drwy Raglen Dysgu Gydol Oes 2013, neu a oedd â'r posibilrwydd o dderbyn cyllid, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a fu'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn rheolaidd am ei pholisïau a'i meysydd blaenoriaeth. Y bwriad yw y bydd y grŵp hwn yn parhau â'i rôl o gydlynu o dan raglen Erasmus+.

## c). Heriau i gyfrangi'n llwyddiannus (gan gynnwys ariannu / adnoddau)

---

12. Mae cyllid Leonardo da Vinci wedi galluogi myfyrwyr i dderbyn lleoliadau gwaith wedi eu hariannu'n llawn yn Ewrop. Ariannwyd y teithio, y gynhaliadau a'r paratodau iaith gan y grant a gafwyd drwy gynllun Leonardo da Vinci. Mae'n ymddangos (rydym yn aros am gadarnhad gan Ecorys) y gallai'r cyfraddau cynhaliadau ar gyfer 2014-2020 o dan raglen Erasmus+ fod yn is na chyfraddau 2007-2013. Mae'r tâl rheoli hefyd wedi ei leihau ac nid oes arian ar gael ar gyfer paratodau iaith a diwylliant i'r cyfranogwyr. Felly, er y ceir cynnydd yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer Erasmus+, mae'n ymddangos bod y cyfraddau ariannu oddi mewn i wahanol raglenni wedi lleihau. Gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y niferoedd sy'n cymryd rhan.
13. Mae'r cyfraddau ymyrraeth sydd ar gael ar gyfer INTERREG a rhai o'r rhaglenni cysylltiedig (tua 75%) yn golygu bod noddwyr y prosiectau mewn gwell sefyllfa i gychwyn ar brosiect a allai fod yn fuddiol. Gall natur ryngwladol y prosiectau ar y cyd weithiau fod yn heriol i'w trefnu a'u cynnal yn ymarferol, ond yn gyffredinol ni fu'r heriau hyn yn rhy fawr i'w goresgyn.

#### d). Manteision / gwerth o ymwneud â mentrau'r UE

---

14. Mae arian Ewrop yn galluogi dysgwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol i fanteisio ar gyfleoedd cyfoethogi dramor. Bu ColegauCymru yn canolbwyntio yn bennaf ar gyfleoedd i ddysgwyr galwedigaethol a dysgwyr yn y gweithle i gael cyfnodau byr o brofiad gwaith mewn sefydliadau masnachol yn Ewrop drwy gyllid Leonardo da Vinci.
15. **Mae'r manteision i Gymru wedi cynnwys:** gwella sgiliau technegol a sgiliau iaith myfyrwyr, gwella 'sgiliau meddal' (gwaith tîm, datrys problemau, y gallu i ymdopi, hyblygrwydd, dealltwriaeth a goddefgarwch o ddiwylliannau gwaith a chymdeithasol eraill), cydnabyddiaeth o'r dysgu a wnaed yn ystod y lleoliad gwaith yn Ewrop drwy fenter Europass a thrwy hybu egwyddorion y System Gredyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECVET).

#### e). Cyfleoedd ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020

---

16. Bydd ColegauCymru yn parhau i gyflwyno cais yn flynyddol am gyfleoedd symudedd ar sail lleoliadau gwaith drwy Erasmus+ i ddysgwyr a phrentisiaid galwedigaethol, a bydd hefyd yn parhau i gynorthwyo colegau sy'n dymuno cyflwyno eu ceisiadau eu hunain am gyllid. Bydd ColegauCymru hefyd yn cyflwyno cais yn 2014 am symudedd staff. Y wlad dan sylw yw'r Ffindir, a'r grŵp targed o ran staff yw rhai sy'n gyfrifol am wella addysgu a dysgu mewn colegau yng Nghymru ac sy'n rhan o Rwydwaith Addysgu a Dysgu ColegauCymru. Rydym yn gweithio i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru ac yn ein partner ranbarthau yn elwa o'r prosiect hwn.
17. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gyda Chyfarwyddwr Dwyieithrwydd ColegauCymru a Chyfarwyddwr Sgiliaith (asiantaeth a ariennir i ddatblygu sgiliau galwedigaethol yn y Gymraeg) i drefnu symudedd i staff naill ai i Wlad y Basg neu i Gatalonia er mwyn i Bencampwyr Dwyieithrwydd y colegau archwilio gwahanol agweddau ar ddysgu ac addysgu dwyieithog.

#### f). Cymorth posibl gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill

---

18. Ariannwyd swydd Cydlynnydd Rhyngwladol ColegauCymru gan Lywodraeth Cymru am 12 mis i gychwyn (Tachwedd 2010 – Hydref 2011) a chafodd gwaith y Cydlynnydd Rhyngwladol ei fonitro'n rheolaidd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Ers mis Tachwedd 2011, cafodd swydd y Cydlynnydd Rhyngwladol ei hariannu gan GolegauCymru ac mae cyfrifoldebau'r swydd yn ehangach na'r hyn a oedd yng nghylch gwaith cychwynol Llywodraeth Cymru.
19. Mae ColegauCymru yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru ar gyllid Ewropeaidd, ac mae swyddogion yn cyfranogi'n adeiladol yn Rhwydwaith Rheolwyr Cyllid Ewropeaidd y sector a fforymau eraill.

## Atodiad: Cyllid Leonardo da Vinci drwy ColegauCymru ers mis Tachwedd 2010

Dyddiad y cais	Nifer y colegau	Nifer y cyfranogwyr	Nifer y prentisiaid	Nifer yr IVET	Nifer y meysydd cwricwlwm	Nifer y gwledydd Ewropeaidd	Nifer y partneriaid yn Ewrop sy'n cynnig lleoedd	Swm y cyllid (Ewro)
Chwefror 2011	8	28	28	0	5	3	8	92,000
Chwefror 2012	11	63	45	22	8	8	18	215, 996.75
Chwefror 2013	7	47	18	29	10	5	18	154, 870.40
<b>CYFANSWM Y CYLLID HYD HYMA (EWRO)</b>								<b>462, 867.15</b>
<b>Mawrth 2014 –</b> datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan golegau AB ond sydd heb gyflwyno eto	10	160	tbc	tbc	14	14	30+	250,000+ (amcangyfrif)